

Grŵp Atebolrwydd a Dilysrwydd Plismona (PALG)

Pencadlys yr Heddlu

03 Rhagfyr 2019

COFNODION

Yn bresennol

Tîm Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau

| | |
|----------------------------|--|
| Lee Jones - Cadeirydd (LJ) | Prif Weithredwr (Interim) |
| Hannah Jenkins-Jones (HJJ) | Arweinydd Strategol Craffu, Sicrwydd a Chydraddoldeb |
| Sarah Mahon (SM) | Swyddog Ymgysylltu a Sicrwydd |
| Cerys Parker (CP) | Swyddog Cymorth Gweinyddol |
| Nia Scourfield (NS) | Swyddog Cymorth Llywodraethu |
| Jackie Trow (JT) | Arweinydd Strategol ar gyfer Ansawdd, Safonau a Chydymffurfiaeth |

Heddlu De Cymru

| | |
|-----------------------------|-------------------------------------|
| Prif Arolygydd Karl Eenmaa | Pennaeth Rheoli Gwybodaeth |
| Ian James | Hyfforddwr Gweithredol |
| Martyn Jones | Rheolwr Cydraddoldeb a Chynhwysiant |
| Leigh Ratti | Hyfforddwr Gweithredol |
| Uwch-arolygydd Martyn Stone | |

Aelodau PALG

| | |
|-----------------------|------------------------------|
| Alex Drummond (AD) | Cynghorydd Annibynnol |
| Steve Bartley (SB) | Pobl Hŷn Cymru |
| Helen Gardiner (HG) | Ffynnu Cymorth i Fenywod |
| Jasmine Jones (JJ) | Sipsiwn a Theithwyr Cymru |
| Tony Hendrickson (TH) | Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig |
| Martin Smidman (MS) | Cyngor Ffoaduriaid Cymru |
| Judith Major (JM) | Hafal |
| Joe Powell (JP) | Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan |
| Holly Taylor (HT) | Cyngor Ffoaduriaid Cymru |
| Graeme Johnson | ACEM |

1. Cofnodion a chamau gweithredu

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gofnod gwir.

| Cam Gweithredu | Disgrifiad | Diweddariad |
|----------------|--|---|
| 1 | Tîm y Comisiynydd i ystyried sut y gellid cynnwys rheolaeth orfodol wrth gyflawni'r amcan pobl hŷn yn y Cynllun Cydraddoldeb ar y Cyd. | Dywedodd HJJ wrth y grŵp y byddai'r Cynllun Cydraddoldeb ar y Cyd yn cael ei lansio yn fuan ac y byddai hyn yn cael ei ymgorffori fel rhan o'r amcan pobl hŷn. Byddai HJJ yn gweithio gydag Adran Diogelu'r Cyhoedd i sicrhau yr aed i'r afael â hyn. |
| 2 | Tîm y Comisiynydd i ystyried datblygu fformatau hygyrch o wybodaeth stopio a chwilio ar gyfer y cyhoedd. | Dywedodd SM y byddai animeiddiad yn cael ei ddatblygu yn dilyn adborth a gasglwyd o'r gweithdai a'r arolwg stopio a chwilio. |
| 3 | Datblygu briffiau ar Adran 60 er mwyn i PCSOs eu defnyddio yn y gymuned. | Dywedodd MS fod yr adran Dysgu a Datblygu wrthi'n edrych ar ffordd o ddatblygu hyn. |
| 4 | Rhannu cynigion Cyngorwyr Annibynnol ag aelodau PALG. | Dywedodd LJ a HJJ y byddai'r cylch gorchwyl a'r proffiliau rôl yn cael eu rhannu â'r grŵp unwaith y byddent wedi'u cwblhau. |

2. Defnydd o Rym

Gwahoddodd LJ KE i roi trosolwg o ddefnydd Heddlu De Cymru o dactegau grym. Eglurodd KE fod angen i swyddog gyflwyno ffurflen electronig yn nodi'r rhesymeg a'r cyfiawnhad dros ddefnyddio grym bob tro y byddai grym yn cael ei ddefnyddio gydag unigolyn. Nododd JR mai Heddlu De Cymru oedd un o'r heddluoedd gorau yn y wlad o ran cyflwyno ffurflenni defnydd o rym. Roedd y broses hon ar waith i sicrhau bod yr heddlu'n agored ac yn dryloyw o ran sut roedd y defnydd o rym yn cael ei gymhwyso. Cyflwynwyd enghraifft o'r ffurflen electronig i aelodau PALG er gwybodaeth.

Gofynnodd JM a oedd swyddogion yn gallu cofnodi pa mor agored i niwed oedd unigolion a oedd yn hysbys iddynt ar ffurflenni defnydd o rym. Cadarnhaodd KE fod meysydd wedi'u cynnwys ar y ffurflen i gofnodi'r wybodaeth hon.

Cyfeiriodd JR ac IJ at yr amrywiaeth o dactegau a oedd ar gael i swyddogion eu defnyddio a gwnaethant arddangos technegau grym. Roedd y rhain yn cynnwys gwn Taser, gefynnau, giard poeri, baton, chwistrell PAVA a sgiliau cyfathrebu tactegol. Nododd JR fod gweld swyddogion yn gwisgo gwn Taser yn aml yn ddull atal ynddo'i hun. Fodd bynnag, petai gwn Taser wedi'i estyn ond heb ei ddefnyddio, byddai angen nodi hyn ar ffurflen defnydd o rym o hyd. Roedd y grŵp yn awyddus i ddeall faint o swyddogion a oedd wedi cael hyfforddiant ar ddefnyddio gynnu Taser a sawl gwaith yr oedd gwn Taser wedi'i estyn o gymharu â sawl gwaith yr oedd wedi'i ddefnyddio. Dywedodd KE y gellid darparu'r wybodaeth hon ac y byddai'n cael ei rhannu â Hannah Jenkins-Jones yn nhîm y Comisiynydd.

Gofynnodd SV a oedd y digwyddiad diweddar lle bu farw unigolyn ar ôl defnyddio gwn Taser wedi effeithio ar hyder swyddogion i ddefnyddio gynnu Taser. Dywedodd KE fod y Coleg Plismona wedi cysylltu â phob heddlu yn y DU yn dilyn yr achos hwn i gadarnhau nad oedd unrhyw newidiadau i'r hyfforddiant ar gynnu Taser. Roedd hyn yn dangos y gellid cyfiawnhau defnyddio gwn Taser ac y gallai ffactorau eraill fod wedi cyfrannu at farwolaeth yr unigolyn. Nododd MS fod Taser yn ddull llai bygythiol ac yn achosi llai o anafiadau na rhai tactegau grym eraill. Nododd KE fod fideo a wisgir ar y corff yn rhoi tawelwch meddwl ychwanegol i swyddogion.

Trafododd y grŵp y broses o flaenoriaethu tactegau grym a gofynnodd a oedd proses uwchgyfeirio tactegau yr oedd swyddogion yn ei dilyn pan oeddent yn wynebu bygythiad. Dywedodd JR wrth y grŵp fod yr heddlu yn cydymffurfio â'r 'model penderfyniadau cenedlaethol', sef fframwaith a oedd â'r nod o gysoni a hwyluso'r broses o wneud penderfyniadau. Roedd pob swyddog yn cael hyfforddiant ar sut i ddefnyddio'r model hwn yn ymarferol. Ychwanegodd KE fod penderfyniad swyddog ar y defnydd priodol o dactegau grym yn seiliedig ar ganfyddiad y swyddog o'r bygythiad yr oedd yn ei wynebu. Nod y ffurflen defnydd o rym wedyn fyddai nodi tystiolaeth i ddangos bod y penderfyniad yn rhesymol ac yn gymesur ac y gellid ei gyfiawnhau.

Nododd HJJ ei fod wedi edrych ar fideos a wisgir ar y corff o ddigwyddiadau defnydd o rym fel rhan o ymarferion sicrhau ansawdd y Comisiynydd. Roedd un o'r fideos yn cynnwys unigolyn a oedd wedi hunan-niweidio. Roedd HJJ yn awyddus i wybod pa hyfforddiant yr oedd swyddogion yn ei gael mewn perthynas ag ymateb i ddigwyddiadau fel hyn. Cyfeiriodd KE at y model penderfyniadau cenedlaethol a dywedodd y byddai defnydd priodol o rym yn cael ei ystyried fel dewis olaf os nad oedd

unigolyn a oedd yn agored i niwed yn fodlon cydymffurfio â chyfarwyddiadau a thactegau cyfathrebu. Prif nod swyddogion yr heddlu oedd diogelu bywyd. Pe bai angen defnyddio grym er mwyn achub unigolyn a oedd yn agored i niwed ac atal niwed i bobl eraill, yna byddai dull rhesymol y gellid ei gyfiawnhau yn cael ei ddefnyddio. Holodd HT sut y byddai swyddogion yn defnyddio eu technegau cyfathrebu mewn achosion lle nad oedd unigolion yn siarad Saesneg fel iaith gyntaf. Dywedodd KE fod swyddogion yn cael hyfforddiant ar gyfathrebu tactegol, a oedd yn cynnwys mesur bygythiad yn seiliedig ar iaith y corff.

Tynnodd AD sylw at y sensitifrwydd ymhlith diwyllianau a oedd yn ystyried yr heddlu mewn ffordd negyddol yn seiliedig ar brofiadau o ddiwylliant yr heddlu yn eu mamwlad. Trafododd y grŵp y pryderon a allai fod gan rai mewnfydwyr o ran rhoi gwybod i'r heddlu, yn enwedig pan oedd yn ymddangos bod dryswch ynghylch y gwahaniaeth rhwng rolau swyddogion ffiniau a swyddogion yr heddlu.

Gofynnodd JM a oedd adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau yn cael ei gofnodi gan yr heddlu. Dywedodd KE nad oedd yn ymwybodol o unrhyw achosion lle roedd hyn wedi digwydd. Awgrymodd JM y byddai'n bwerus deall safbwynt unigolyn ar y ffordd y defnyddiwyd grym a myfyrio ar y profiad. Awgrymodd KE y gellid ystyried hyn yn y dyfodol o bosibl.

Rhoddodd KE drosolwg o'r ystadegau o ran y defnydd o rym rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2019/20. Nododd KE y cafwyd 36 (1%) o gwynion o blith y 43,788 o ddigwyddiadau. Ychwanegodd LR fod y rhan fwyaf o gwynion mewn perthynas â'r defnydd o rym yn ymwneud â gosod gefynnau yn rhy dynn. Dywedodd KE mai cyfathrebu tactegol oedd y dull tacteg grym a ddefnyddiwyd fwyaf yn ystod y cyfnod hwn. Dilynwyd hyn gan unigolion yn cytuno i wisgo gefynnau. Alcohol a chyffuriau oedd y ffactorau a oedd yn cyfrannu fwyaf at y defnydd o rym ac roedd y rhan fwyaf o rym yn cael ei ddefnyddio ar ddynion. Cyflwynwyd dadansoddiad manwl o oedran, rhywedd ac ethnigrwydd i'r grŵp.

Nododd SB ei bod yn ymddangos bod grym wedi cael ei ddefnyddio gyda nifer o uchel o blant. Holodd HJJ hefyd am anghymesuredd y defnydd o rym yn erbyn unigolion du. Roedd yn ymddangos bod hyn yn gymesurol uwch na chyfraddau stopio a chwilio. Argymhellodd y grŵp y byddai'n ddefnyddiol archwilio'r data ymhellach er mwyn deall y tactegau grym amrywiol a ddefnyddir yn erbyn gwahanol grwpiau oedran a grwpiau lleiafrifoedd ethnig. Dywedodd MJ y byddai tîm Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Heddlu De Cymru yn archwilio'r wybodaeth hon er mwyn deall hyn ymhellach. Dywedodd MJ wrth y grŵp hefyd fod yr heddlu yn ymchwilio i'r hyn sy'n digwydd pan fydd y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael galwadau yn ymwneud â hiliaeth.

Ailbwysleisiodd HT bwysigrwydd mynd i'r afael ag iaith a diwylliant, yn enwedig os mai cyfathrebu oedd y dacteg a oedd yn cael ei defnyddio gan amlaf. Byddai isgyfeirio digwyddiad gydag unigolyn na all siarad Saesneg yn hynod o anodd. Awgrymodd HT y gallai hyn egluro pam roedd grym yn cael ei ddefnyddio yn erbyn nifer uchel o bobl ddu ac nad oedd yn arwain at unrhyw gamau pellach.

Holodd AD a oedd unrhyw gudd-wybodaeth a oedd yn dangos effaith anfon swyddog gwyn neu ddu i ddigwyddiadau lle roedd ethnigrwydd unigolyn yn hysbys. Nododd AD

ei bod yn bwysig dysgu o arferion gorau a chanfyddiadau cymunedol er mwyn lleihau anghymesuredd. Cytunodd y grŵp y byddai gweithlu cynrychioliadol hefyd yn helpu i oresgyn rhai o'r rhwystrau a drafodwyd.

Rhannodd KE glip fideo a wisgir ar y corff o fis Medi 2019 yn dangos grym yn cael ei ddefnyddio. Roedd y clip fideo yn cynnwys unigolyn o leiafrif ethnig nad oedd yn gallu siarad Saesneg. Holodd HJJ sut roedd swyddogion yn gallu asesu a oedd gan unigolyn nad oedd yn siarad Saesneg unrhyw anafiadau/pryderon nad oedd yn hysbys iddynt. Dywedodd KE y byddai pobl sy'n cael eu cadw yn y ddalfa yn cael eu hasesu wrth gyrraedd y ddalfa ac y gellid hefyd gymhwyso'r broses llinell iaith unwaith y byddai unigolyn yn y ddalfa. Awgrymodd AD y byddai'n ddefnyddiol cyfieithu'r hyn yr oedd yr unigolyn yn y fideo a wisgir ar y corff yn ei ddweud, er mwyn gwella dealltwriaeth a gwaith dysgu yn y dyfodol.

Adroddiad Sicrhau Ansawdd y Comisiynydd

Dywedodd HJJ wrth y grŵp fod tîm y Comisiynydd wedi cwblhau ymarfer hapsamplu o 'fideos a wisgir ar y corff' sy'n gysylltiedig â defnydd o rym. Dewiswyd 10 fideo ar hap ar gyfer y broses hon. Y pwyntiau allweddol a gafodd eu hystyried yn ystod yr ymarfer oedd a oedd y defnydd o rym yn ymddangos yn gymesur, yn deg ac yn gyfiawnadwy. Nododd HJJ yr ystyriwyd bod yr holl swyddogion wedi ymddwyn mewn modd teg a phriodol. Mewn achosion lle roedd unigolion wedi bod yn hunan-niweidio neu mewn perygl o hunan-niweidio, roedd swyddogion yn gweithredu mewn modd sensitif. O'r 10 fideo a adolygwyd, edrychwyd ar y digwyddiadau ar NICHE hefyd er mwyn nodi a oedd ffurflenni defnydd o rym wedi cael eu cwblhau. Nododd HJJ mai dim ond mewn 6 o'r 10 achos yr oedd ffurflenni defnydd o rym wedi cael eu cyflwyno.

Dywedodd HJJ y byddai tîm y Comisiynydd yn cynnal ymarferion sicrhau ansawdd yn rheolaidd ac yr hoffai gynnwys aelodau PALG yn y broses o wyllo clipiau fideo a rhoi adborth.

CAM GWEITHREDU – Karl Eenmma i roi dadansoddiad o nifer y swyddogion a oedd wedi cael hyfforddiant ar ddefnyddio gynau Taser a'r gymhariaeth rhwng nifer yr achosion o estyn gwn Taser a a defnyddio gwn Taser i Hannah Jenkins-Jones.

CAM GWEITHREDU – Rhannu dadansoddiad o ddata ar y defnydd o rym, gan gynnwys categorïau defnydd o rym a'r math o drosedd, â tîm y Comisiynydd.

3. Y newyddion diweddaraf gan dîm y Comisiynydd

Dywedodd HJJ wrth y grŵp fod tîm y Comisiynydd yn bwriadu recriwtio aelodau annibynnol yn y flwyddyn newydd. Roedd cylch gorchwyl a phroffiliau rôl wrthi'n cael eu drafftio. Roedd HJJ a LJ yn gobeithio y byddai ehangu'r aelodaeth i gynnwys aelodau annibynnol yn cynyddu amrywiaeth a chynrychiolaeth ymhlith y grŵp.

Dywedodd HJJ wrth y grŵp y byddai tîm y Comisiynydd yn hwyluso gweithdy stopio a chwilio gyda phobl ifanc mewn partneriaeth â Race Equality First. Nod y gwaith ymgysylltu fyddai deall canfyddiadau a phrofiadau pobl ifanc. Byddai arolwg ar-lein hefyd yn cael ei lansio yn y flwyddyn newydd. Gofynnodd HJJ am gymorth PALG i hyrwyddo a thargeddu'r arolwg.

Tabl Camau Gweithredu

| Cam Gweithredu | Disgrifiad | Diweddariad |
|----------------|---|-------------|
| 1 | Darparu trosolwg o nifer y swyddogion a oedd wedi cael hyfforddiant ar ddefnyddio gynnau Taser a'r gymhariaeth rhwng nifer yr achosion o estyn gwn Taser a defnyddio gwn Taser. | Karl Eenmaa |
| 2 | Rhannu dadansoddiad o ddata ar y defnydd o rym, gan gynnwys categorïau defnydd o rym a'r math o drosedd, â thîm y Comisiynydd. | Karl Eenmaa |